# Cyfarfod Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) ar thema Bwyd Anifeiliaid – 4 Tachwedd 2025

## Bydd y cyfarfod a'r trafodaethau'n cynnwys y canlynol:

- Cyflwyniad i fwyd anifeiliaid yng Nghymru
- Polisi Hylendid Bwyd Anifeiliaid yng Nghymru
- Cynnal rheolaethau swyddogol

Mae'r agenda lawn i'w gweld ar dudalen Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar ein gwefan.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y thema hon, a gwaith yr ASB yng Nghymru yn gyffredinol, ddod i'r cyfarfod a chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb agored ar ôl y trafodaethau.

Mae nifer cyfyngedig o leoedd ar gael ar gyfer dod i'r cyfarfod hwn yn bersonol, ond mae croeso i'r rhai sydd â diddordeb ymuno ar-lein a chyflwyno cwestiynau i'r Pwyllgor ymlaen llaw trwy ddilyn y cyfarwyddiadau isod.

## Manylion am y lleoliad

Cynhelir y cyfarfod ym Melin Bwyd Anifeiliaid ForFarmers, Caerfyrddin. Fodd bynnag, mae nifer cyfyngedig o leoedd yn y felin ac felly, cynhelir y cyfarfod ar-lein hefyd drwy MS Teams. Bydd y cyfarfod yn dechrau'n brydlon am 10am.

## Cadw eich lle a chyflwyno cwestiynau

Anfonwch e-bost i walesadminteam@food.gov.uk er mwyn gwylio'r cyfarfod ar-lein, cyflwyno cwestiwn neu gael mwy o wybodaeth.